# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogyngadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Tachwedd 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

**Cofrestru cyn y cyfarfod**

(09:00 - 09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymgynghoriad ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru

(09.30 - 10.30)

(Tudalennau 1 - 23)

Dyfan Sion, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Dylan Foster-Evans, Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Wyn Thomas, Dyfodol i'r Iaith

Robat Idris, Cymdeithas yr Iaith

## Egwyl

(10.30 - 10.45)

## 3 COVID-19: effaith y pandemig ar leoliadau cerddoriaeth fyw

(10.45 - 11.45) (Tudalennau 24 - 37)

Guto Brychan, Clwb Ifor Bach

Samantha Dabb, Le Pub

Dilwyn Llwyd, Neuadd Ogwen

Gary Lulham, Sin City

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Papur(au) i'w nodi

4.1 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth i ddiwylliant, treftadaeth a newyddiaduraeth

(Tudalennau 38 - 41)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 6 COVID-19: effaith y pandemig ar y celfyddydau - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law gan randdeiliaid yn ystod y sesiwn dystiolaeth

(11.45-11.55)

(Tudalennau 42 - 55)

## 7 Pwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus? Trafod y camau nesaf

(11.55 - 12.00)

(Tudalennau 56 - 57)

## 8 Trafodaeth breifat

(12.00 -12.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Tîm y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
Y Gangen Polisi Cynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

ffdc@llyw.cymru

15/11/2019

Annwyl Gyfaill,

**Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft**

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y *Fframwaith Datblygu Cenedlaethol* drafft. Mae fy sylwadau yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg. Cefnogaf nifer o agweddau'r ddogfen hon a hoffwn hefyd dynnu eich sylw at rai elfennau y gellid eu mireinio.

Ymhlith yr agweddau cadarnhaol mae'r bwriadau canlynol a nodir yn y Fframwaith:

- sicrhau ffyniant y Gymraeg a chefnogi cynnydd yn nifer y siaradwyr
- rheoli gwaith datblygu er mwyn gwarchod y Gymraeg fel iaith gymunedol
- cysylltu datblygu cynaliadwy â'r Gymraeg, cymunedau a'r economi

Mae'r canlynol ymhlith y materion y mae angen sylw pellach arnynt:

- sut y dylid rheoli gwaith datblygu er mwyn gwarchod y Gymraeg ac ehangu cyfleoedd i'w defnyddio yn lleol ac yn genedlaethol
- y cysylltiad rhwng addysg a datblygu, gan gynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol
- pwysigrwydd rhai siroedd ac ardaloedd i hyfywedd y Gymraeg a photensial cydweithio rhyngddynt fel cadarnleoedd y Gymraeg
- arwyddocâd, i'r Fframwaith cyfan, y datganiad fod y Gymraeg yn iaith fyw a siaredir ym mhob rhan o Gymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

- y cysylltiad rhwng datblygu a'r safonau llunio polisi a'r safonau hybu a osodir ar awdurdodau lleol trwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**

Croesawaf y ffaith bod Canlyniadau'r Fframwaith yn cynnwys amcan i ddatblygu "Cymru lle mae pobl yn byw mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu" (Canlyniad 4). Mae'r Canlyniad hwn yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Nodir bod y Fframwaith hefyd yn cefnogi'r targed o gynnydd o 10% yn y ganran o bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd erbyn 2050. Targedau o strategaeth *Cymraeg 2050* y Llywodraeth yw'r rhain ac fe'ch anogaf i gyfeirio'n uniongyrchol at y strategaeth hon ac ymgorffori ei themâu a'i hamcanion yn y Fframwaith.

Noda Canlyniad 4 y canlynol: "Os mai'r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny. Mewn mannau eraill bydd awdurdodau addysg yn arwain ar ddatblygu'r seilwaith i alluogi yr iaith ddatblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau." Cefnogaf y cyntaf o'r amcanion hyn ond pryderaf ei fod yn awgrymu na reolir gwaith datblygu mewn modd sy'n cefnogi'r Gymraeg oni bai am yr ardaloedd hynny lle mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd. Dylai'r Fframwaith fanylu nid yn unig ar sut y dylid rheoli gwaith datblygu er mwyn gwarchod y Gymraeg ac ehangu cyfleoedd i'w defnyddio, ond sut y dylid ei wneud ym mhob rhan o'r wlad. Yn achos yr ail amcan, rwyf o'r farn y dylid manylu ar yr hyn a ddisgwylir gan awdurdodau addysg.

Dylai'r Fframwaith amlygu'r cysylltiad rhwng dyletswyddau awdurdodau lleol o ran datblygu a'u Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Ymatebais ym mis Awst eleni i ymgynghoriad y Llywodraeth ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Drafft (Argraffiad 3). Yn yr ymateb hwnnw, nodais fod y Llywodraeth, yn ei Rheoliadau Drafft ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a gyhoeddwyd ar 30 Mai 2019, yn mynegi dymuniad i awdurdodau lleol ddangos ymrwymiad i dargedau *Cymraeg 2050*. Argymhellais y dylai awdurdodau lleol ystyried hyn wrth lunio cynlluniau tymor hir ar gyfer datblygu eu hardaloedd lleol. Dylai'r Fframwaith gyfeirio at y cysylltiad rhwng addysg a datblygu, yng nghyd-destun y gymuned a'r economi, o ystyried eu pwysigrwydd o fewn themâu *Cymraeg 2050*.

**Strategaeth Ofodol y Fframwaith**

Cymeradwyaf y gefnogaeth yn strategaeth ofodol y Fframwaith i ddatblygu cynaliadwy a'r cysylltiad a wneir â'r Gymraeg, cymunedau a'r economi. Nodaf fod hyn yn adlewyrchu argymhelliad a wneir yn *Cymraeg 2050*, sef: "Dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg trwy greu amodau addas i gymunedau cynaliadwy ffynnu." Cyfeiriais at yr egwyddor hon yn fy ymateb i'r ymgynghoriad ar y Llawlyfr Cynlluniau

**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Datblygu Drafft (Argraffiad 3) ac mae'n parhau yn ddilys yng nghyswllt y Fframwaith hwn. Yn gysylltiedig â hyn, tanlinellais bwysigrwydd cynllunio ieithyddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg gwledig yn fy ymateb ym mis Hydref 2019 i ymgynghoriad y Llywodraeth ar *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*[1] drwy ddweud:

> "Yn ei hanfod felly dylai cynllunio ieithyddol er mwyn i gymunedau Cymraeg gwledig fod yn gynaliadwy fod yn rhan greiddiol o gynlluniau a pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol amaethu yng Nghymru."

Dylwn bwysleisio fod y sylwadau hynny yn gwbl berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yn ogystal.

## Canolfannau rhanbarthol

Rhestra'r Fframwaith nifer o ganolfannau rhanbarthol a ystyrir yn bwysig. Nodir y dylent, drwy bolisïau penodol mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol, gadw a gwella'r sail gwasanaethau masnachol a chyhoeddus sy'n eu gwneud yn ganolbwyntiau yn eu hardaloedd. Yn eu plith mae Caerfyrddin, Aberystwyth a Chaernarfon. Mae'r trefi hyn yn ganolbwyntiau i siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Gwynedd, tair o'r siroedd sydd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (43.9% – 65.4%), yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011. Dylai'r Fframwaith dynnu sylw at y ffaith hon, yng nghyd-destun ei ymrwymiadau i'r Gymraeg. Dylid hefyd sicrhau nad yw'r Fframwaith, trwy bwysleisio'r canolfannau hyn, yn tanseilio canolfannau eraill yn yr un rhanbarthau na chymunedau llai eu poblogaeth yn yr ardaloedd hynny. O ystyried y pwysau ar wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys addysg a thrafnidiaeth gyhoeddus, dylid gochel rhag canoli adnoddau mewn canolfannau nad ydynt o fewn cyrraedd hawdd i bawb a thrwy hynny danseilio hyfywedd cymunedau llai.

Ynys Môn yw'r unig sir arall lle mae canran y siaradwyr Cymraeg o fewn yr un ystod â'r tair sir uchod. Cyfeirir at Ynys Môn yng nghyd-destun datblygu porthladd Caergybi ac ynni newydd, i sicrhau twf a chefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol. Unwaith eto, yng nghyd-destun ymrwymiadau'r Fframwaith i'r Gymraeg, dylid tynnu sylw at y ffaith mai yn y sir hon

[1] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20190712%20LL%20C%20Ffermio%20cynhaliadwy%20an%20Tir.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

y mae un o'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Dylid nodi hefyd bod cydweithio rhyngranbarthol yn bwysig o safbwynt y Gymraeg. Ni ddylid cyfyngu ar unrhyw gydweithio rhwng awdurdodau lleol er lles yr iaith, yn arbennig rhwng siroedd lle mae niferoedd arwyddocaol o siaradwyr Cymraeg. Un enghraifft o gydweithio o'r fath, wrth gwrs, yw cynllun Arfor.

Dylid pwysleisio hefyd fod y nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yn un sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Croesawaf y ffaith y gwneir datganiad, yn achos pob rhanbarth, y dylai cynlluniau datblygu ystyried y gydberthynas rhwng tai, trafnidiaeth, twf economaidd a'r Gymraeg. Dylid ychwanegu addysg at y rhestr hon, am y rhesymau a amlinellais uchod. Yn achos rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, cyfeirir yn benodol at Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Fe'ch anogaf i gyfeirio at y ddau fath o gynllun yn achos y rhanbarthau eraill hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb. Am yr un rheswm, dylid cynnwys cyfeiriad at y Gymraeg yn y ffeithlun a geir ar ddechrau pob adran am ranbarth unigol yn y Fframwaith. Er y cynhwysir y niferoedd ar gyfer pob rhanbarth yn nhestun Pennod 2, yn achos y ffeithluniau dim ond yn un rhanbarth Gogledd Cymru  y cyfeirir at nifer y siaradwyr Gymraeg. Dylai'r Fframwaith cyfan adlewyrchu'r datganiad ym Mhennod 2 fod y Gymraeg yn iaith fyw a siaredir ym mhob cwr o'r wlad. Croesawaf y cyfeiriad at dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn rhanbarth y De-ddwyrain a chredaf ei fod yn bwysig tynnu sylw awdurdodau lleol at gynnydd o'r math.

**Safonau'r Gymraeg**

Awgrymaf bod y Fframwaith yn cyfeirio at Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau sy'n deillio ohono, sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol o safbwynt y Gymraeg. Dylid nodi bod gofyn i awdurdodau lleol lunio cynlluniau a pholisïau datblygu yng nghyd-destun y safonau. Cyfeiriaf yn benodol at y safonau llunio polisi a'r safonau hybu. Mae'r safonau llunio polisi yn ymwneud ag ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan sefydliadau ar y Gymraeg. Maent yn nodi, er enghraifft, wrth lunio polisi newydd neu adolygu polisi sydd eisoes yn bodoli, bod rhaid i sefydliadau ystyried pa effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Maent yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i ystyried sut i lunio polisi neu newid polisi er mwyn iddo gael effaith positif ar y Gymraeg ac er mwyn iddo beidio â chael effeithiau andwyol ar yr iaith.

Mae'r safonau hybu yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith, gan gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Mae fy swyddfa wedi cyhoeddi arweiniad ar y mater hwn, *Safonau ynghylch hybu'r Gymraeg: Strategaethau 5 mlynedd: canllaw arfer da i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau*

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

*Cenedlaethol*.[2] Mae'r canllaw yn cyfeirio at y themâu sy'n sail i strategaethau cryf, gan gynnwys rhai o agweddau amlwg cynllunio, sef cymunedau a'r economi. Cyfeiriais at y safonau hyn yn fy ymateb i'r ymgynghoriad ar y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Drafft (Argraffiad 3). Dylai'r Fframwaith gyfeirio at y strategaethau hyn yng nghyd-destun ei gefnogaeth i amcanion *Cymraeg 2050* ac yng nghyd-destun Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a drafodir uchod. Dylwn nodi yn ogystal bod ansicrwydd am union atebolrwydd democrataidd a llywodraethiant nifer o strwythurau rhanbarthol. Mae hyn yn fater o bryder o safbwynt y dyletswyddau sydd ar y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus Cymru i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg. Ni fuaswn yn dymuno i'r pwyslais ar weithio'n rhanbarthol danseilio'r dyletswyddau hyn.

Yn olaf, hoffwn ofyn am eglurder ynglŷn â'r modd y caiff gweithrediad y Fframwaith ei fonitro a sut y mesurir llwyddiant wrth anelu at y Canlyniadau a ddymunir.

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi wrth i chi lunio'r Fframwaith terfynol.

Yr eiddoch yn gywir,

**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru

[2] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20181031%20GC%20Safonau%20ynghylch%20hybu'r%20Gymraeg%20(Cymraeg)%20-%20Terfynol.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/361/20

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu

27 Hydref 2020

Annwyl Helen Mary,

**RHAGOR O WYBODAETH AM GEFNOGAETH AR GYFER Y PORTFFOLIO DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH**

Diolch am eich llythyr ddaeth i law ar 5 Hydref ble rydych yn gwneud cais am ragor o fanylion ar rai meysydd a drafodwyd yn sesiwn y Pwyllgor ar 17 Medi.

Diolch am gydnabod y rhan bwysig y mae Cymru Greadigol eisoes yn ei chwarae o ran rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i'r sector.  Rwyf am ateb y pwyntiau eraill yr ydych wedi eu codi yn y drefn yr ydych wedi'u rhestru.

**Cyllido**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gronfa Adfer Diwylliannol gwerth £53m ym mis Gorffennaf i ddarparu cymorth hanfodol i theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, orielau a sinemâu annibynnol sydd i gyd wedi gweld colled refeniw dramatig oherwydd pandemig Covid-19. Fe wnes ryddhau Ddatganiad Ysgrifenedig yr wythnos diwethaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y gronfa hon. Mae cynllun mewn lle ar gyfer gwerthuso'r rhaglen a fydd yn adrodd ar ddiwedd y Cynllun.

Wrth gyhoeddi'r cyllid hwn ym mis Gorffennaf, roeddem yn glir iawn mai cymorth ychwanegol i'r sector oedd hwn yn dilyn y pecyn £18m a gyhoeddwyd ddechrau mis Ebrill ar draws fy mhortffolio ehangach a'r cymorth ariannol arall sydd wedi bod ar gael, megis y Gronfa Cydnerthu Economaidd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn ymwybodol o'r galw mawr am y Gronfa Adfer Diwylliannol, yn enwedig o ran y gronfa llawrydd a lansiwyd yn ddiweddar, ac rydym yn archwilio opsiynau i sicrhau adnoddau ychwanegol i ateb y galw hwn. Rydym yn parhau i weithio gyda'n holl randdeiliaid i gefnogi'r sector drwy'r cyfnod eithriadol o anodd hwn a bydd cyllid ar gyfer ein sefydliadau cenedlaethol yn cael ei adolygu fel rhan o reolaeth ariannol barhaus wrth i ni symud drwy'r flwyddyn.

**Mynediad at safleoedd treftadaeth**

*1) Roeddech yn gofyn am ffigurau diweddar yn dangos pa ganran o'r nifer arferol o ymwelwyr y gellid eu croesawu – ac sydd wedi eu croesawu – i safleoedd Cadw a lleoliadau Amgueddfa Genedlaethol Cymru ers llacio cyfyngiadau'r cyfnod cloi.*

O ran Cadw, dechreuwyd ail-agor ein safleoedd wedi'u staffio ar 4 Awst a digwyddodd hyn drwy gydol misoedd Awst a Medi. Mae gan bob heneb gapasiti gwahanol oherwydd eu maint a'u cynlluniau gwahanol. Oherwydd rheoliadau Covid Llywodraeth Cymru, y nifer gwirioneddol o ymwelwyr y gellid eu cynnwys yn ddiogel ar safleoedd wedi'u staffio oedd 30% o'r nifer cyfartalog o ymwelwyr dyddiol ar y safle am yr un mis yn ystod y llynedd. Roedd hyn yn unol â disgwyliadau ar draws y sector treftadaeth.

Caiff nifer yr ymwelwyr ei reoli drwy gyflwyno tocynnau ar-lein. Mae y cyfyngu ar y niferoedd wedi codi yn gynyddrannol fesul safle wrth i safleoedd gael eu datblygu a dod yn fwy hyderus gyda'u niferoedd.

Nifer yr ymwelwyr yn Awst 2020 oedd 48,898. Dyma ostyngiad o 78% o gymharu ag Awst 2019, welodd 218,190 o ymwelwyr. Nid oedd hyn yn syndod gan nad oedd un safle ar agor ar gyfer y mis cyfan ac nid oedd yn bosibl agor rhai safleoedd o gwbl.

Nifer yr ymwelwyr ym mis Medi 2020 oedd 49,078. Dyma ostyngiad o 57% o gymharu â mis Medi 2019, welodd 114,828 o ymwelwyr. Roedd mwyafrif ein safleoedd ar agor gydol mis Medi ond gydag oriau agor byrrach.

Mae rhai o safleoedd Cadw gyda staff (gan gynnwys rhai henebion mwy) wedi cau eto oherwydd cyfyngiadau lleol a gyflwynwyd ym mis Medi a Hydref.

*2) Roeddech yn holi a oedd y mynediad at safleoedd Cadw yn cael eu rheoli – hynny yw, a yw'n bosibl rhoi blaenoriaeth i rai grwpiau penodol o blant ysgol? Os felly, sut ydych chi wedi diffinio grwpiau sy'n flaenoriaeth a sut oedd mynediad i grwpiau blaenoriaeth yn cael ei reoli?*

Caiff y mynediad at safleoedd sydd â thocynnau ei reoli drwy system docynnau. Mae angen i ymwelwyr archebu tocynnau ymlaen llaw naill ai ar-lein neu ar y ffôn. Mae Cadw yn parhau i gynnig mynediad am bris is i'r grwpiau canlynol: iau (5-17 mlwydd oed), hŷn (65+ mlwydd oed), yr anabl, myfyrwyr UCM, cyn-filwyr ac aelodau'r lluoedd arfog. Caiff ymweliadau grŵp eu cyfyngu i uchafswm o 30 o bobl, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

Mae Cadw wedi ymdrechu erioed i groesawu ymweliadau grŵp gan ysgolion, clybiau, sefydliadau a chwmnïau teithio.

Cafwyd llawer o ymweliadau addysgol ar y safle cyn y pandemig, ond ychydig o alw sydd bellach gan ysgolion. Ail-agorodd safleoedd Cadw ym mis Awst pan oedd ysgolion wedi cau, ac yn ystod mis Medi roedd ysgolion yn addasu i fod yn agored eto ac yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio. Nid yw hyn bellach yn cynnwys teithiau rheolaidd i safleoedd allanol.

Fodd bynnag, mae plant ysgol yn cael eu blaenoriaethu o ran mynediad ar-lein i safleoedd ac adnoddau Cadw. Mae ysgolion yn datblygu dulliau newydd a chreadigol o ddysgu. Mae Tîm Dysgu Gydol Oes Cadw yn ymateb i hyn drwy flaenoriaethu adnoddau newydd i ysgolion gan gynnwys:

- sesiwn 'Skype' ar-lein gyda chymeriad mewn gwisg arbennig ym Mhlas Mawr i dros 100 o blant sydd fel arfer yn ymweld â'n safleoedd, yn ogystal â thaflenni a gweithgareddau
- noddi Gŵyl Hanes Cymru i Blant http://www.gwylhanes.cymru/index-en.php. Bydd y ffilmiau, sy'n cynnwys BSL, ar gael ar y wefan am flwyddyn;
- creu mwy o adnoddau a gweithgareddau digidol megis Minecraft, ffilmio wrth gerdded drwy'r safleoedd a ffilmiau 360°. Mae'r ffilmio eisoes wedi ei wneud yng Nghastell Dinbych;
- creu ymgyrch ddigidol 15 munud ar dreftadaeth i ysbrydoli ysgolion i ymchwilio i'w treftadaeth leol; mae rhaglen beilot ar gyfer hyn gyda theuluoedd ac ysgolion yn ardal Cyfuno Gwynedd.
- mae Castell Conwy wedi agor ei drysau i grŵp bychan o deuluoedd bregus tra bod y castell ar gau i'r cyhoedd dros yr haf. Roedd hwn yn lle diogel i staff fod gyda'u teuluoedd gyda phellter cymdeithasol ac i deuluoedd bregus gael rhywfaint o 'amser chwarae' mewn amgylchedd ddiogel;
- lansio Drysau Agored Digidol ym mis Medi, gan ganiatáu i bobl ymweld â beddau Neolithig, cestyll, abatai a gweithfeydd haearn yn rhithiol.

*3) Trafodwyd y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr i safleoedd treftadaeth ac amgueddfeydd. A allwch ddarparu ffigurau diweddar sy'n dangos pa ganran o'r niferoedd ymwelwyr arferol y gellir eu cynnwys – ac wedi ymweld – safleoedd Cadw a lleoliadau Amgueddfa Cymru ers i'r cyfyngiadau cloi gael eu lleddfu?*

Gostyngodd Amgueddfa Cymru y capasiti cyffredinol ar gyfer pob amgueddfa er mwyn galluogi ymbellhau cymdeithasol. Mae gan bob amgueddfa gyd-destun ffisegol gwahanol y mae'n rhaid ei gynnwys yn hyn ond ar gyfartaledd roedd hyn yn golygu bod capasiti Covid diwygiedig tua 30% o'r arfer gan fod Amgueddfa Cymru hefyd wedi bod yn gweithredu ar ddiwrnodau is. Yn ogystal, roedd Amgueddfa Cymru wedi agor yn raddol rhwng 4 Awst (pan agorodd tir Sain Ffagan) a 3 Medi. Hyd at ddiwedd Medi (pan gafodd rhai safleoedd Amgueddfa Cymru eu cau eto oherwydd cyfyngiadau lleol ar rai o'r safleoedd megis Big Pit, yr Amgueddfa Lofaol, a'r Amgueddfa Lleng Rufeinig, roedd gan Amgueddfa Cymru o dan y gweithrediadau llai hyn, tua 40 mil o ymwelwyr, sef tua 43% o'r capasiti mwyaf fel cyfartaledd ar draws yr holl amgueddfeydd o'r capasiti Covid mwyaf posibl. Gwelodd Amgueddfa Cymru amrywiadau hefyd mewn lefelau ymweld pan orffennodd gwyliau'r haf yn ogystal â ffactorau arferol fel y tywydd.

**Newyddiaduraeth a'r cyfryngau cymdeithasol**

Mae sector newyddiaduraeth bywiog yn elfen hanfodol o gymdeithas ddemocrataidd fodern, ac mae'r cyfryngau yn chwarae rhan hollbwysig yn rhoi gwybodaeth i bobl ledled Cymru. Mae COVID-19 yn benodol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cael mynediad at newyddion a gwybodaeth lleol cywir ac wedi tynnu sylw at yr heriau y mae'r cyfryngau yn eu hwynebu. Rwyf wedi gofyn i Cymru Greadigol edrych ar yr opsiynau i gryfhau y cyfryngau yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys trafod gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant ac ystyried cyfryngau wedi'u hargraffu a'r cyfryngau digidol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion gyflwyno eu canfyddiadau imi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon gyda'r bwriad o roi cefnogaeth, fel a gytunwyd drwy'r ymarfer hwn ac yng nghyd-destun ymyrraeth briodol gan y Llywodraeth, yn 2021. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar y gyllideb ar gyfer hyn gan bod lefel yr ymrwymiad ariannol


yn dibynnu ar y prif ganfyddiadau, penderfyniadau o ran ffurf unrhyw gymorth ac yn unol â phenderfyniadau ehangach ar ddyrannu cyllideb.

**Radio Cymunedol**

Mae gorsafoedd radio cymunedol hefyd yn rhan bwysig o ddarlledu, gan helpu i sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at newyddion a gwybodaeth am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn eu cymunedau. Byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth i orsafoedd radio cymunedol drwy amrywiol ddulliau o gefnogi busnesau, gan gynnwys drwy gymorth Busnes Cymru. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i sicrhau cymaint o fynediad â phosibl i'r cynlluniau cyllido hyn gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn cydweithio gydag Ofcom i sicrhau bod cynifer â phosibl o orsafoedd radio cymunedol cymwys yn elwa o'r Gronfa Radio Cymunedol.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon o gymorth.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon